Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cyfarfod y Pwyllgor Dethol**
**Dyddiad: 2 Chwefror 2026, Amser: 10am–12pm**
**Lleoliad: SCHTh/MS Teams**
**Cadeiriwyd y cyfarfod gan: Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn**

| | |
|---|---|
| **Aelodau** | • Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh), Dafydd Llywelyn (Cadeirydd)<br>• Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh), Carys Morgans<br>• Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaeth (SCHTh), Alison Perry<br>• Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio, Caroline Wheeler<br>• Aelod o'r Panel Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys, Davinia Davies<br>• Llysgennad Ieuenctid, Bradley Cole (ar-lein)<br>• Aelod Annibynnol Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Helen Thomas |
| **Hefyd yn bresennol** | • Cynghorydd Polisi (SCHTh), Hannah Hyde<br>• Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth (SCHTh), Ellen Jones |

*Mae'r nodiadau hyn yn rhoi crynodeb o'r trafodaethau a'r camau gweithredu a osodwyd.*

## 1. Croeso a throsolwg

Croesawyd aelodau'r Pwyllgor Dethol gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, gan ailadrodd pwrpas adolygiad y Pwyllgor Dethol, a phwrpas y cyfarfod hwn: I drafod canfyddiadau'r adroddiad drafft, ei argymhellion, a'r camau nesaf ar gyfer yr adolygiad.

Cyfeiriodd y CHTh at y newyddion ynghylch diddymu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, a sut y gallai hyn effeithio ar yr effaith y gall yr adolygiad hwn ei chael.

## 2. Canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad

Cyflwynodd aelodau'r gweithgor bob argymhelliad yn ei dro, gan ddarparu manylion am ganfyddiadau'r adroddiad a'r dystiolaeth a arweiniodd at ddrafftio'r argymhelliad.

Trafododd aelodau'r Pwyllgor Dethol bob argymhelliad, gan gynnig rhai newidiadau i'r geiriad, yn ogystal ag argymhellion/meysydd ffocws ychwanegol.

**Cam gweithredu 18: Y gweithgor i ddiweddaru'r adroddiad a'r ddogfen atodiadau yn unol â thrafodaethau'r Pwyllgor Dethol a'u hail-ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor Dethol.**

Trafododd aelodau'r Pwyllgor Dethol y strwythur llywodraethu o ran perchnogaeth yr argymhellion, a'r cynnydd yn eu herbyn.

Cynigiwyd cynnal trafodaeth bord gron, dan gadeiryddiaeth y CHTh, lle gofynnir i randdeiliaid allweddol fynychu i drafod yr argymhellion; a ydynt yn deg ac yn gyfiawn, a'r strwythur llywodraethu posibl ar gyfer argymhellion yr adolygiad.

**Cam gweithredu 19: Y gweithgor i gydlynu trafodaeth bord gron.**

## 3. Cyfarfod/gwrandawiad nesaf

Yn unol â'r camau gweithredu a osodwyd gan y CHTh, bydd y Pwyllgor Dethol yn cyfarfod nesaf fel rhan o drafodaeth bord gron amlasiantaeth, wyneb yn wyneb, ar ddyddiad i'w bennu.